

**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau
16eg Gorffennaf 2026 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

Yn bresennol: y Cyngorydd Nigel Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Gary Evans, Helen Evans, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Clerc: Denfer Morgan

361 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Eirlys James-Evans ac, Arwel Jones am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

362 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2026

PENDERFYNWYD cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2026.

363 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi ganddo wybodaeth pellach ers yr adroddiad a roddwyd i'r cyfarfod diwethaf.

364 Arolwg o'r Trefniadau Cymunedol Ceredigion

Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Glerc Cyngor Cymuned Llandysiliogogo yn annog cyngorau tref a chymuned i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gwrthwynebu penderfyniadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ynghylch newidiadau i drefniadau cyngorau lleol yn y Sir.

PENDERFYNWYD gytuno i gefnogi'r cynrychioliadau a wneir i Lywodraeth Cymru.

365 Unrhyw Fater Arall

- a) Gofynwyd i'r Clerc ddwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol;
- eu hatgoffa o'r angen i ailosod yr arwydd 'Ildio' ar y gyffordd ger Tŷ Mawr; a'r angen i docio'r goeden ger Brodawel, Ciliau Aeron
 - tocio'r clawdd sy'n gorhangian drod y pafin yn arwain o Giliau Aeron i gyfeiriad Aberaeron
 - gofyn am arwydd 'ffordd yn culhau' cyn y Bont Newydd, Ciliau Aeron
 - delio gyda'r goeden sydd wedi cwmpo ac yn rhwystro llwybr troed sydd heb ei gofrestru yng Nghiliau Aeron.
- b) Cytunwyd cynnal swper dathlu'r Cyngor fyng Ngwesty Tyglyn Aeron ar nos Wener 7fed o Dachwedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:00pm